**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**15 Mai 2013**

## ADRODDIAD GWYBODAETH GAN BENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD

## AWGRYM I GREU GWEITHGOR YNNI GWYNT

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cais a wnaed ganddynt yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror 2013 i greu gweithgor newydd i archwilio'r materion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygiadau ynni gwynt ac arallgyfeirio ffermydd yn y Sir. Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gweld nifer gynyddol o geisiadau cynllunio ar gyfer tyrbinau gwynt sengl neu ddwbl mewn lleoliadau gwledig. Mae'r ceisiadau hyn wedi'u gwneud dan amryw ffurfiau, mae rhai wedi'u hybu fel cynlluniau arallgyfeirio ffermydd ac eraill i'r gwrthwyneb.

2.2 Mae'r penderfyniadau a wnaed ar y ceisiadau hyn wedi amrywio hefyd ac mae Aelodau wedi mynegi pryderon am ddiffyg cyfarwyddyd Polisi clir i gefnogi eu gwaith gwneud penderfyniadau.

2.3 Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r diffyg cyfarwyddyd hwn, roedd Swyddogion wedi creu dogfen Cyfarwyddyd Cynllunio Interim. Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi cytuno i greu'r ddogfen hon ac roeddent wedi awdurdodi Swyddogion i adael iddi fynd allan i ymgynghoriad wedyn. Fodd bynnag, yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio mis Chwefror 2013, gofynnodd yr Aelodau bod gweithgor yn cael ei sefydlu i drafod cynnwys y ddogfen Cyfarwyddyd Cynllunio Interim.

2.4 Bwriad y ddogfen bob amser oedd bod yn ddogfen gyfarwyddyd a oedd yn cwmpasu cyfnod penodol cyn i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ddod i rym. Mae adroddiad yr Arolygwyr ar CDLl Sir Ddinbych ar ddod. Pe bai'r CDLl yn cael ei gytuno, byddai'r Cyngor yn edrych ar flaenoriaethu cyfres o ddogfennau Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r prif CDLl.

2.5 Mae blaenoriaethu gwaith cynhyrchu'r CCA yn fater i Grŵp Llywio'r CDLl a byddant yn cyfarfod ar 25 Mehefin 2013.

Rhagwelir y bydd gwaith greu cyfarwyddyd ffurfiol ar ddatblygiad Ynni Adnewyddadwy yn datblygu drwy'r grŵp hwn. Bydd y grŵp yn gytbwys yn wleidyddol ac yn ddaearyddol ac mae'r Swyddogion yn teimlo mai hwn yw'r fforwm mwyaf priodol i Aelodau drafod cynnwys unrhyw ddogfen cyfarwyddyd Cynllunio gofynnol.

2.6 Yn ogystal, dylai aelodau nodi bod dogfen gysylltiedig allweddol o ran asesu tyrbinau gwynt yn Sir Ddinbych wedi'i chreu bellach. Bydd dogfen Asesiad o Faintioli a Sensitifrwydd Tirwedd Sir Conwy a Sir Ddinbych i Ddatblygiadau Ynni Gwynt yn adnodd gwerthfawr wrth asesu cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt yn y dyfodol. Nid yw ymgynghoriad ar y ddogfen hon wedi digwydd eto, ond rhagwelir y bydd Aelodau yn gallu trafod ei chynnwys drwy Grŵp Llywio'r CDLl.

2.7 Bydd y ddogfen dirwedd yn eistedd ochr yn ochr ag unrhyw CCY newydd ac yn amlwg bydd y ddwy ddogfen yn cydgysylltu at ddibenion gwneud penderfyniadau.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Bod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad gwybodaeth ac yn cytuno i ddatblygu gwaith cynhyrchu cyfarwyddyd cynllunio ar Ynni Adnewyddadwy drwy Grŵp Llywio'r CDLl.